

# Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethi Annomestig (Rhestrau)

Gorffennaf 2019

## Cyflwyniad

1. Trafododd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Cynulliad (y Pwyllgor) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Ardrethi Annomestig (Rhestrau) ar 3 Gorffennaf 2019.

## Y cefndir

2. Ar 19 Mehefin 2019 gosododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar gyfer y Bil. Ar 25 Mehefin 2019, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn i'w drafod, gan nodi y byddai'n rhaid iddo baratoi adroddiad erbyn 4 Gorffennaf 2019.

3. Mae dadl wedi'i threfnu yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf 2019 ynghylch Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn ceisio cydsyniad y Cynulliad â'r darpariaethau perthnasol yn y Bil.

4. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Mehefin 2019. Pasiodd yr ail ddarlleniad yn ddiwrthwynebiad a chafodd ei gyfeirio at Bwyllgor Bil Cyhoeddus, ar roedd disgwyl i hwn gyflwyno adroddiad i'r Tŷ erbyn 2 Gorffennaf 2019. Gan hynny, mae amserlen y broses graffu wedi'i chyfyngu gan fod disgwyl i'r Bil symud yn gyflym drwy'r Senedd. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r Cynulliad gael cyfle i graffu ar y Bil, a gosododd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol wythnos ar ôl cyflwyno'r Bil.



## Trosolwg o'r Bil

- 5.** Mae Llywodraeth y DU yn datgan mai ei hamcan polisi yw sicrhau bod biliau ardrethi annomestig yn rhoi darllun cywirach o werth rhenti cyfredol yr eiddo dan sylw. Yng Nghyllideb yr hydref 2017 a Datganiad gwanwyn 2018, dywedodd Canghellor y Trysorlys y byddai ardrethi annomestig yn cael eu hailbrisio flwyddyn yn gynt na'r disgwyl, a hynny ar 1 Ebrill 2021 yn hytrach nag 1 Ebrill 2022, ac y byddai'r cylch ailbrisio rhestrau ardrethu newydd yn newid wedyn yn Lloegr, a hynny o bob pum mlynedd i bob tair blynedd. Mae'r Bil hwn yn rhoi ymrwymadau'r Canghellor ar waith.
- 6.** Mae dyletswydd statudol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VAO) i gadw rhestrau prisio cywir at ddibenion ardrethu annomestig a'r dreth gyngor. Mae'n casglu ac yn cynnal y data prisio a gedwir ar y rhestrau. Ar sail y rhestrau hyn caiff dros £2.5 biliwn (net) o refeniw trethi lleol ei gasglu bob blwyddyn yng Nghymru,
- 7.** Pennir y cylchoedd prisio gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988). Mae ailbrisio yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad eiddo ac mae'r VOA wedyn yn addasu gwerthoedd ardrethol eiddo annomestig i roi darllun cywirach o sefyllfa'r farchnad, a'r farchnad rentu'n bennaf.
- 8.** Mae angen deddfwriaeth sylfaenol i ddiwygio Deddf 1988 (sydd, ar y cyd â Gorchymyn Rhestrau Ardrethu (Gohirio Casglu) (Cymru) 2014, yn pennu y caiff y gwaith ailbrisio ei gynnal bob pum mlynedd o 1 Ebrill 2017 ymlaen mewn perthynas â Chymru) ac i ddwyn y dyddiad ailbrisio ymlaen o 2022 i 2021, ac i leihau'r cylch ailbrisio o bum mlynedd i dair.
- 9.** Mae Gorchymyn y Rhestr Ailbrisio (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2018, a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 2(3)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf 1988, yn ailbennu'r dyddiad penodedig at ddibenion prisio i 1 Ebrill 2019, gan ganiatáu i'r VOA dechrau ar y gwaith y ae angen ei gwblhau i ailbrisio eiddo annomestig yng Nghymru a chyhoeddi'r rhestrau newydd a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2021. Gan nad oes dim cyfrwng deddfwriaethol wedi'i gynllunio a fyddai'n caniatáu i'r dyddiad newydd ddod i rym mewn pryd drwy Fil Cynulliad, mae angen ceisio darpariaethau ym Mil Llywodraeth y DU i ddwyn y dyddiad ailbrisio ymlaen i 1 Ebrill 2021 yng Nghymru. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

## Y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

- 10.** Mae cydsyniad y Cynulliad yn cael ei geisio ar gyfer y darpariaethau canlynol, a gynhwyswyd yn y cyflwyniad:

## Cymalau 1(3), (6) a (7)

---

**11.** Mae cymalau 1(3) a (6) yn diwygio adrannau 41(5) a 52(5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988) er mwyn symud y gofyniad i baratoi rhestrau ardrethu drafft yng Nghymru a Lloegr o 30 Medi fan bellaf i 31 Rhagfyr fan bellaf cyn i'r rhestr ardrethu newydd ddod i rym.

**12.** Mae cymal 1(7) yn diwygio adrannau 54A(4) (b) a 54A(5)(b) o Ddeddf 1988 i ddarparu bod y rhestrau ardrethu nesaf yng Nghymru yn cael eu paratoi ar 1 Ebrill 2021 yn hytrach nag 1 Ebrill 2022. Ar ôl 2021, bydd y cyfnod arferol rhwng ailbrisiadau mewn perthynas â rhestrau Cymru yn parhau, sef bob pum mlynedd.

## Cymal 2(2)

---

**13.** Mae Cymal 2(2) yn gwneud newidiadau canlyniadol i ystyr "cyfnod perthnasol" yn adran 58 o Ddeddf 1988, gan adlewyrchu'r cyfnod byrrach o bedair blynedd mewn perthynas â rhestrau Cymru yn 2017 ac yn cadw'r cylch prisio pum mlynedd yng Nghymru ar ôl 2021.

## Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU

**14.** Mae'r Memorandwm yn cynnwys rhesymau Llywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil hwn, ac mae'n credu bod y rhesymau hyn yn briodol oherwydd amseriad a chysondeb:

- Mae'n rhaid gwneud gwaith sylweddol er mwyn paratoi ar gyfer y rhestrau ardrethu newydd a fydd yn cael effaith ar 1 Ebrill 2021 a gwneud talwyr ardrethi yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar y gweill. Mae cadarnhau'r dyddiad prisio mewn deddfwriaeth yn darparu'r sail statudol ar gyfer y gwaith hwn.
- Mae'r posibilrwydd o wneud y newid hwn drwy Fil Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wedi'i ddiystyru gan nad oes cyfle deddfwriaethol addas o fewn yr amserlen ofynnol i alluogi'r VOA i gwblhau'r gwaith prisio angenrheidiol. Hefyd, byddai defnyddio Bil Llywodraeth Cymru diweddarach yn arwain at lai o sicrwydd i fusnesau a thalwyr ardrethi eraill yng Nghymru yn y cyfamser.
- Bydd y Bil yn sicrhau bod amseriad y broses ailbrisiadau yng Nghymru yn cydfynd â'r broses yn Lloegr a bod prisiadau yn cael eu cynnal mewn modd cyson. i'r gwaith hwn.

## Ein barn ni

- 15.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu bod y Bil yn gyfrwng deddfwriaethol priodol i roi'r newidiadau ar waith mewn modd amserol a sicrhau cysondeb ledled Cymru a Lloegr.
- 16.** O ran y goblygiadau ariannol, gan fod prosesau ailbrizio cyfnodol yn nodwedd o'r system ardrethu annomestig, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi bod y costau'n cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'r gyllideb. Mae'r VOA yn asesu eiddo annomestig ar sail ei werth ar ddyddiad penodedig, sef y Dyddiad Prisio Rhagflaenol (AVD), a chan mai 1 Ebrill 2019 yw'r AVD mae'r VOA wedi dechrau ar y gwaith paratoi, ac mae rhai costau eisoes wedi codi.
- 17.** Yn ei adroddiad ar Ardrethi Busnes, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, argymhellodd y Pwyllgor y dylid ailbrizio eiddo bob tair blynedd yn lle pump, gan gredu ei bod yn hanfodol cynnal proses ailbrizio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y system yn deg ac yn parhau i fod yn deg. Argymhellodd nifer o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor y dylid sefydlu cylch ailbrizio o dair blynedd, gan gynnwys Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, y Sefydliad Ardrethu Refeniw a Phrisio a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru.
- 18.** Barn y Pwyllgor oedd y byddai mabwysiadu system ailbrizio fwy rheolaidd yn debygol o arwain at sefyllfa lle y byddai ardrethi busnes yn newid yn amlach, ond yn llai sylweddol, ac y byddai hyn yn well na newidiadau mawr bob pump neu chwe blynedd. Nododd y Pwyllgor hefyd y dylai'r newid hwn ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddiddymu trefniadau trosiannol, a all fod yn gymhleth i'w gweinyddu.
- 19.** Felly, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r newid deddfwriaethol a gynigir yn y Bil i ddwyn y dyddiad ailbrizio nesaf yng Nghymru ymlaen i 2021, ond mae'n nodi y bydd y gwaith ailbrizio wedi hynny'n cael ei gynnal bob pum mlynedd yng Nghymru, yn hytrach nag yn amlach, fel yr argymhellwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Bil yn darparu ar gyfer diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a bod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 29. Nid yw'r Pwyllgor yn gweld bod unrhyw reswm dros wrthwynebu i'r Cynulliad gytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.